

Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelwch Adeiladau

15 Rhagfyr 2021

1. Cefndir

1. Ar 19 Gorffennaf 2021, gosododd y Gweinidog Newid Hinsawdd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar gyfer y Bil Diogelwch Adeiladau sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("y Memorandwm Atodol") ar 21 Medi 2021 yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.
2. Ar 30 Medi 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod. Gosododd y Pwyllgor Busnes ddyddiad cau i gyflwyno adroddiad erbyn 18 Tachwedd 2021, a ddiwygiwyd maes o law i 16 Rhagfyr. Gwnaethom ystyried y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol yn ein cyfarfodydd ar 6 Hydref, 13 Tachwedd ac 17 Tachwedd.
3. Wedi inni ystyried y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol ar 6 Hydref, [ysgrifennom at y Gweinidog Newid Hinsawdd](#) yn gofyn am ragor o wybodaeth am benderfyniad Llywodraeth Cymru i geisio'r diwygiadau hyn trwy Fil y DU a'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth Senedd Cymru. [Ysgrifennom hefyd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#). Atebodd y Gweinidog Newid Hinsawdd [ar 22 Hydref](#). Ar ôl ystyried yr ymateb ar 3 Tachwedd, cytunwyd i gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol ar 17 Tachwedd.



2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

- 4.** Mae paragraffau 7 i 11 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraff 12 yn nodi'r cymalau yn y Bil sy'n arbennig o berthnasol i faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae paragraffau 13 i 93 yn pennu'r darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraffau 94 i 100 yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y darpariaethau sy'n cael eu gwneud mewn Bil yn y DU, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd.
- 5.** Mae paragraff 109 o'r Memorandwm yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn drwy Fil y DU, ac mae'n argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.
- 6.** Mae'r Memorandwm Atodol yn darparu diweddariad ar ôl i 22 o welliannau gael eu cyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU ar 15 Medi, i'w hystyried yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliannau yn gwneud darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cytunwyd ar yr holl welliannau.
- 7.** Mae paragraffau 11 i 33 o'r Memorandwm Atodol yn nodi'r newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm. Mae paragraffau 34 i 35 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd. Mae paragraffau 37 i 39 yn nodi casgliad Llywodraeth Cymru ei bod yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r gwelliannau i'r Bil.

3. Darpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd

- 8.** Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 54 ac Atodlen 5, cymal 55 ac Atodlen 6, cymalau 56, 125, 126, 134, 143, 144, 146.
- 9.** Mae'r cymalau hyn yn gofyn am gydsyniad y Senedd gan fod y darpariaethau oll yn ymwneud â diogelwch adeiladau, sy'n ddiben datganoledig, ac nid ydynt yn cyffwrdd ar unrhyw eithriadau neu gyfyngiadau cyffredinol cymwys.

Cymal 1 (Trosolwg o'r Ddeddf)

10. Cymal trosolwg o'r Bil cyfan yw Cymal 1, a fwriedir i gynorthwyo darllenydd y Bil i ddeall y darpariaethau sy'n dilyn.

Cymal 30 (Adeiladau risg uwch etc)

11. Mae cymal 30 yn mewnosod adran 120I yn Neddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984") i ddiffinio "adeilad risg uwch" yng Nghymru a "gwaith adeiladu risg uwch" sy'n cynnwys amgylchiadau lle mae gwaith yn peri i adeilad ddod yn adeilad risg uwch neu'n peidio â bod yn adeilad risg uwch. Ystyr "adeilad risg uwch" yw adeilad sy'n cyfateb i'r disgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae'r rheoliadau o dan Gymal 30 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Cymal 31 (Awdurdodau rheoli adeiladu)

12. Mae cymal 31 yn mewnosod adran 91ZD yn Neddf 1984 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn rheoliadau adeiladu, ddynodi awdurdod lleol amgen i weithredu fel awdurdod rheoli adeiladu pan fo awdurdod lleol ar gyfer yr ardal yn bwriadu gwneud gwaith adeiladu risg uwch. Mae hyn er mwyn osgoi'r risg o wrthdaro buddiannau lle byddai'r awdurdod lleol fel arall yn ddatblygwr ac yn rheoleiddiwr ar gyfer adeilad risg uwch. Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae'r cymal hefyd yn mewnosod adran newydd 121A yn Neddf 1984 i ddiffinio awdurdodau rheoli adeiladu, ac i gadarnhau mai'r awdurdod lleol dynodedig yw'r awdurdod rheoli adeiladu mewn perthynas â gwaith a ddynodwyd iddo.

Cymal 32 (Rheoliadau adeiladu)

13. Mae cymal 32 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Atodlen 1 i Ddeddf 1984 i ddarparu pwerau i reoliadau adeiladu i bennu:

- Gofynion gweithdrefnol sy'n ymwneud â rheoli adeiladu a dyroddi hysbysiadau a thystysgrifau (paragraff newydd 1A);
- Gweithdrefnau sy'n ymwneud â cheisiadau am gymeradwyaeth rheoli adeiladu, ac i ofynion gael eu gosod ar gymeradwyaethau (paragraff newydd 1B);
- Cymeradwyaeth cynlluniau y gall eu haelodau ddyroddi tystysgrifau, a darpariaeth ynghylch y tystysgrifau a'r cynlluniau hynny gan gynnwys yswiriant (paragraff newydd 1C);
- Gofynion o ran rhoi, cael neu gadw gwybodaeth neu ddogfennau (paragraff newydd 1D);

- Gofynion ar gyfer sefydlu system sy'n ymwneud ag adrodd gorfodol ar ddigwyddiadau (paragraff newydd 1E);
- Ffurf a chynnwys dogfennau a gwybodaeth sydd i'w darparu gyda cheisiadau rheoli adeiladu (paragraff newydd 1F);
- Arolygu a phrofi (paragraff newydd 1G);
- Pwerau i awdurdodau rheoli adeiladu ymestyn amserlenni rhagnodedig ar gyfer penderfynu ar geisiadau gyda chytundeb yr ymgeisydd (paragraff newydd 1H);
- Hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau, gofynion a gweithdrefnau apelio (1I).

14. Bydd y darpariaethau hyn yn galluogi cyflwyno gweithdrefnau a gofynion newydd ar gyfer unrhyw waith, gan gynnwys adeiladau risg uwch newydd wrth iddynt gael eu dylunio a'u hadeiladu, ac ar gyfer gwaith adeiladu a wneir arnynt. Mae hefyd yn galluogi cyflwyno gweithdrefnau tebyg ar gyfer adeiladau nad ydynt o fewn cwmpas y gyfundrefn lymach lle y ystyrir bod hyn yn fuddiol.

Cymal 33 (Deiliaid dyletswydd a dyletswyddau cyffredinol)

15. Mae cymal 33 yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf 1984, drwy ychwanegu paragraff 5A, personau penodedig, a pharagraff 5B, dyletswyddau cyffredinol. Bydd y drefn reoleiddio newydd yn rheoleiddio ac yn dwyn i gyfrif y rhai sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio ac adeiladu adeiladau newydd, ac adnewyddu adeiladau sy'n bodoli eisoes.

16. Mae'r cymal hwn yn creu pŵer ym mharagraff 5A i'w gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud mewn perthynas ag unrhyw waith o dan reoliadau adeiladu, i wneud darpariaethau ynghylch natur y penodiad (gan gynnwys y penodwr, y penodai a thymor y penodiad), a phennu sefyllfaoedd lle bernir bod penodiad wedi'i wneud.

17. Mae'r cymal hwn hefyd yn creu pŵer ym mharagraff 5B i osod dyletswyddau ar bersonau perthnasol drwy gydol cyfnod dylunio ac adeiladu prosiect adeiladu. Mae'r deiliaid dyletswydd hyn yn cynnwys y rhai sy'n comisiynu neu'n ymgymryd â gwaith yn ogystal â'r rhai a benodir, sy'n cadw golwg neu'n rheoli'r gwaith. Gall y dyletswyddau hyn fod yn berthnasol i unrhyw waith dylunio neu adeiladu ar unrhyw adeilad. Bydd y darpariaethau yn y cymal hwn yn disodli pŵer presennol yn Atodlen 1 i Ddeddf 1984, a fewnosodwyd gan Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004.

18. Mae'r rheoliadau a wneir o dan y cymal hwn i'w gwneud mewn rheoliadau adeiladu ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cymal 34 (Cymhwysedd y diwydiant)

19. Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf 1984, gan greu pwerau i osod gofynion cymhwysedd ar bersonau penodedig a phersonau rhagnodedig. Mae'r cymal yn diffinio gofynion cymhwysedd at y diben hwn. Bydd y gofynion hyn yn berthnasol i unrhyw waith dylunio neu adeiladu ar bob adeilad ac nid adeiladau risg uwch yn unig. Mae'r rheoliadau a wneir o dan y cymal hwn i'w gwneud mewn rheoliadau adeiladu ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cymal 35 (Cymeradwyaeth rheoli adeiladu yn darfod etc)

20. Mae cymal 35 yn mewnosod adran newydd 32 yn Neddf 1984 sy'n darparu ar gyfer darfod cymeradwyaethau rheoli adeiladu yn awtomatig ar ôl tair blynedd mewn perthynas ag unrhyw adeiladau lle nad yw'r gwaith wedi dechrau. Mae hefyd yn mewnosod adran newydd 53A yn y Ddeddf sy'n gwneud darpariaeth i hysbysiaidau cychwynnol a thystysgrifau planiau ddarfod ar ôl tair blynedd. Mewnosodir paragraff newydd 4A yn Atodlen 4 i Ddeddf 1984 i ddarparu bod hysbysiad corff cyhoeddus a thystysgrif planiau corff cyhoeddus yn darfod ar ôl tair blynedd. Mae diwygiadau canlyniadol yn gwneud adran 47 (Rhoi a derbyn hysbysiad cychwynnol) ac adran 53 (Effaith hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym) yn ddarostyngedig i'r adran newydd 53A. Mae cymal 35 hefyd yn mewnosod darpariaeth yn adrannau newydd 32 a 53A a pharagraff 4A sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru, mewn rheoliadau adeiladu, ddiffinio pryd y mae gwaith yn dechrau at ddibenion cymeradwyaeth yn darfod. Mae'r rheoliadau a wneir o dan y cymal hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cymal 36 (Penderfynu ar geisiadau penodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru)

21. Mae'r cymal hwn yn darparu'r pŵer i wneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i benodi person i benderfynu ar y cais gwreiddiol, gan gynnwys rhoi swyddogaethau iddynt ac ar effaith eu penderfyniadau. Bydd gan Weinidogion Cymru, ac unrhyw berson penodedig, bwerau'r awdurdod rheoli adeiladu i benderfynu ar y cais gwreiddiol gyda Deddf 1984 a rheoliadau adeiladu yn gymwys iddynt fel y maent yn gymwys i'r awdurdod lleol.

22. Mae'r cymal yn rhoi pwerau i wneud darpariaethau ynghylch y ceisiadau hyn mewn rheoliadau adeiladu, gan gynnwys gofynion ar ymgeiswyr a gosod dyletswyddau ar yr awdurdodau lleol mewn perthynas â throsglwyddo'r cais i Weinidogion Cymru. Mae'r rheoliadau i'w gwneud mewn rheoliadau adeiladu ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

23. Bydd ymgeiswyr yn gallu apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru.

Cymal 37 (Hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau stop)

24. Mae isadran (1) o'r cymal hwn yn galluogi'r awdurdod rheoli adeiladu (h.y. yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal neu un a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliadau a wneir o dan a91ZD) i gyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio neu hysbysiadau stop pan fo rheoliadau adeiladu yn cael eu torri neu'n debygol o gael eu torri drwy fewnosod adrannau newydd 35B i 35D yn Neddf 1984.

25. Gellir cyflwyno hysbysiad cydymffurfio (adran newydd 35B) i berson sy'n torri rheoliadau adeiladu neu'n debygol o dorri rheoliadau adeiladu neu ofyniad a osodir o dan reoliadau adeiladu. Bydd yr hysbysiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gywiro'r toriad neu gymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig.

26. Pan fo gwaith yn cael ei wneud sy'n torri un neu ragor o ddarpariaethau penodol rheoliadau adeiladu a bennir mewn rheoliadau at y diben hwn, lle na chydymffurfiwyd â hysbysiad cydymffurfio, neu lle byddai gwaith yn peri risg o niwed difrifol i bobl yn yr adeilad neu o amgylch yr adeilad pe bai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio heb fod y toriad yn cael ei gywiro, gellir cyflwyno hysbysiad stop (adran newydd 35C), i'w gwneud yn ofynnol i berson stopio'r holl waith a bennir yn yr hysbysiad. Bydd apelau yn erbyn hysbysiadau stop a chydymffurfio yn cael eu gwneud i lys ynadon.

27. Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau stop yn cael eu gwneud mewn rheoliadau adeiladu ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cymal 38 (Torri Rheoliadau Adeiladu)

28. Mae'r cymal hwn yn disodli'r drosedd ddiannod bresennol, y gellir ei chosbi drwy ddirwy, yn adran 35 o Ddeddf 1984 (cosb am dorri rheoliadau adeiladu), ac y gellir ei phrofi y naill ffordd neu'r llall, a hefyd yn darparu ar gyfer carcharu fel opsiwn cosbi posibl. Mae'r fersiwn a amnewidir o adran 35 hefyd yn cynyddu'r ddirwy ddyddiol uchaf gan adlewyrchu chwyddiant ers 1984 drwy gyfeirio at lefel 1 ar y raddfa safonol. Yn ogystal, mae adran newydd 35(1) yn ehangu'r drosedd bresennol o dorri rheoliadau adeiladu fel ei bod hefyd yn cwmpasu gofynion a osodir o dan reoliadau adeiladu; er enghraifft, gofynion a osodwyd ar adeg rhoi cymeradwyaeth rheoli adeiladu, megis darparu cynlluniau diwygiedig.

29. Mae isadran (2) yn darparu i'r rheoliadau adeiladu wneud darpariaeth ar gyfer amddiffyniadau mewn perthynas â rheoliadau adeiladu penodol, i'w defnyddio gan bersonau y mae eu hamgylchiadau'n bodloni meini prawf yr amddiffyniad i herio ffi yn eu herbyn.

30. Mae isadran (3) yn diwygio adran 36 o Ddeddf 1984 (hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i gywiro gwaith nad yw'n cydymffurfio) i ymestyn y terfyn amser y gellir ei gwneud yn ofynnol ei gywiro mewn perthynas â thorri rheoliadau adeiladu o 12 mis i 10 mlynedd.

31. Mae rheoliadau o dan y ddarpariaeth hon i'w gwneud mewn rheoliadau adeiladu ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cymal 39 (Atebolrwydd swyddogion corff corfforaethol)

32. Mae cymal 39 yn mewnosod adran newydd 112A yn Neddf 1984 sy'n darparu, pan fo corff corfforaethol yn cyflawni trosedd o dan y Ddeddf honno, y bernir hefyd bod unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff hwnnw wedi cyflawni'r drosedd honno mewn rhai amgylchiadau (pan fo'r drosedd wedi'i chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad yr unigolyn neu i'w phriodoli i esgeulustod ar ei ran).

Cymal 40 (Dirymu darpariaeth benodol a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972)

33. Mae cymal 40 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn rheoliadau adeiladu i ddirymu darpariaethau mewn rheoliadau adeiladu a wnaed o dan adran 1(1) o Ddeddf 1984 a phwerau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae unrhyw ddiwygiadau i ddarpariaethau o'r fath i'w gwneud mewn rheoliadau adeiladu ac felly maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Cymal 41 (Rheoleiddio'r proffesiwn rheoli adeiladu)

34. Mae cymal 41 yn diwygio Deddf 1984 drwy fewnosod Rhan newydd 2A yn y Ddeddf sy'n darparu ar gyfer cofrestru arolygwyr adeiladu a chymeradwywyr rheoli adeiladu. Diben cyffredinol Rhan 2A yw gwella lefelau cymhwysedd ac atebolrwydd yn y sector rheoli adeiladu drwy greu strwythur proffesiynol a rheoleiddiol unedig ar gyfer rheoli adeiladu, gan newid a moderneiddio'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

35. Yn y dyfodol, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol a phob cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig, cyn arfer swyddogaethau rheoli adeiladu penodedig mewn perthynas â phrosiect adeiladu (megis cymeradwyo cynlluniau neu gyflwyno hysbysiad cychwynnol), gael ac ystyried cyngor gan arolygydd adeiladu cofrestredig. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt ddefnyddio arolygydd adeiladu cofrestredig i gynnal gweithgareddau cyfyngedig (fel arolygiadau rheoli adeiladu).

36. Yn y dyfodol, bydd angen i unigolion yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus sy'n dymuno bod yn arolygwyr adeiladu cofrestredig fodloni'r un meini prawf safonol sylfaenol er mwyn cael

eu rhoi ar y gofrestr. Bydd arolygwyr adeiladu cofrestredig yn gallu rhoi cyngor i'r awdurdodau rheoli adeiladu neu'r cymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig, yn unol â'r math o gofrestrriad sydd ganddynt.

37. Bydd yn rhaid i'r "Arolygwyr Cymeradwy" presennol (h.y. sefydliadau) sy'n dymuno ymgymryd â gwaith rheoli adeiladu hefyd fodloni meini prawf sylfaenol i gael eu cofrestru fel cymeradwywyr rheoli adeiladu, gan ddod dan oruchwyliaeth yr awdurdod rheoleiddio. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod rheoleiddio yng Nghymru.

Cymal 42 (Trosglwyddo swyddogaethau arolygwyr cymeradwy i gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig) ac Atodlen 4

38. Ar hyn o bryd, mae Rhan 2 o Ddeddf 1984 yn darparu ar gyfer Arolygwyr Cymeradwy (gan gynnwys sefydliadau ac unigolion) i oruchwyllo gwaith adeiladu. Mae'r cymal hwn, ac Atodlen 4, yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau yn Neddf 1984, yn Rhan 2 yn bennaf, fel bod cyfeiriadau at Arolygwyr Cymeradwy yn cael eu newid i fod yn gyfeiriadau at gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig.

Cymal 43 (Swyddogaethau sy'n arferadwy dim ond drwy arolygwyr adeiladu cofrestredig, neu gyda chyngor arolygwyr adeiladu cofrestredig)

39. Mae cymal 43 yn mewnosod adrannau newydd 46A a 54B yn Neddf 1984. Mae adran 46A yn darparu mai dim ond drwy arolygydd adeiladu cofrestredig y gall awdurdod rheoli adeiladu gyflawni gweithgarwch cyfyngedig (a ddiffinnir yn yr adran hon). Mae'n darparu hefyd y bydd swyddogaethau rheoli adeiladu rhagnodedig yn cael eu pennu fel swyddogaethau y bydd awdurdodau rheoli adeiladu dim ond yn gallu eu cyflawni ar ôl cael ac ystyried cyngor arolygydd adeiladu cofrestredig yn gyntaf. Mae adran newydd 54B yn gwneud yr un ddarpariaeth mewn perthynas â chymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig.

40. Bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau adeiladu sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cymal 44 (Pwerau diofyn awdurdod cenedlaethol priodol)

41. Mae cymal 44 yn diwygio adrannau 116 i 118 o Ddeddf 1984 ac yn egluro pwerau Gweinidogion Cymru yn rhannol. Mae'r cymal hwn yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol (h.y. Gweinidogion Cymru yng Nghymru) lle mae wedi'i fodloni bod awdurdod lleol wedi methu â chyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, i wneud gorchymyn sy'n datgan eu bod yn ddiodyn ac yn eu cyfarwyddo i gyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd benodol ac o fewn amserlen benodol. Os bydd awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio â'r gorchymyn hwn, caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol wneud gorchymyn trosglwyddo i aseinio iddo'i hun

swyddogaethau rheoli adeiladu penodedig sy'n perthyn i'r corff yn ddiodyn. Mae is-adran newydd (5) i adra 116 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn trosglwyddo pan fo wedi ei fodloni bod yr awdurdod lleol wedi arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n methu'r safonau disgwylidig neu sy'n rhoi personau mewn perygl ac sy'n debygol o barhau i wneud hynny. Gwneir y gorchymyn heb unrhyw weithdrefn.

Cymal 45 (Gwaith adeiladu risg uwch: cymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig)

42. Mae'r cymal hwn yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf 1984 mewn perthynas â gwaith adeiladu risg uwch. Mae Rhan 2 yn nodi'r drefn rheoli adeiladu lle mae gwaith adeiladu yn cael ei oruchwylio gan arolygydd cymeradwy (i'w ailenwi'n gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig gan gymal 43 o'r Bil). Mae'r diwygiadau i adrannau 47 a 51A o Ddeddf 1984 yn dileu'r gallu i bersonau sy'n gwneud unrhyw waith adeiladu sy'n waith adeiladu risg uwch ddewis eu corff rheoli adeiladu eu hunain. Ar gyfer gwaith o'r fath dim ond yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal neu'r awdurdod lleol fel y'i dynodir gan Weinidogion Cymru fydd yn gallu gweithredu fel awdurdod rheoli adeiladu. Pan fydd newidiadau'n arwain at waith yn dod yn waith adeiladu risg uwch, bydd yn ofynnol canslo'r hysbysiad gwreiddiol a hysbysu'r awdurdod lleol. Mae'r cymal hwn hefyd yn diwygio adran 55 o Ddeddf 1984 i ddarparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn hysbysiad canslo. Yng Nghymru, bydd apelau yn mynd i'r llys ynadon.

Cymal 46 (Gwaith adeiladu risg uwch: cyrff cyhoeddus)

43. Mae cymal 46 yn mewnosod adran newydd 54A yn Neddf 1984. Mae adran 54A yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n diwygio adrannau 5, 54 ac Atodlen 4 i'r Ddeddf mewn perthynas ag adeiladau risg uwch. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu cyfundrefn adeiladau risg uwch wedi'i haddasu ar gyfer cyrff cyhoeddus, er enghraifft, i atal corff cyhoeddus rhag cyflwyno hysbysiad corff cyhoeddus (hysbysiad a roddir i'r awdurdod lleol i oruchwylio eu gwaith adeiladu eu hunain yn lle'r awdurdod lleol) ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch. Mae'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran newydd 54A yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Cymal 47 (Yswiriant)

44. Mae cymal 47 yn diwygio adran 47 o Ddeddf 1984. Mae'r diwygiad yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi cyrff i gymeradwyo cynlluniau yswiriant a hefyd i gyhoeddi canllawiau ynghylch digonolrwydd cynlluniau yswiriant.

Cymal 48 (Tystysgrifau Planiau)

45. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 50 o Ddeddf 1984 mewn perthynas â rhoi tystysgrifau planiau. Mae'n cynnwys darpariaeth sy'n nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i

gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig ddyroddi tystysgrif planiau. Y rhain yw bod yn rhaid i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig fod wedi arolygu'r planiau llawn neu unrhyw blaniau sy'n ddigonol at ddibenion dyroddi tystysgrif planiau ar gyfer y gwaith (adran newydd 50(1A)(a)); nad yw'r planiau'n ddiffygiol (adran newydd 50(1A)(b)); bod y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig wedi'i fodloni y bydd y gwaith a gwmpesir gan y planiau, os caiff ei gyflawni yn unol â'r planiau, yn cydymffurfio â gofynion rheoliadau adeiladu (adran newydd 50(1A)(c)); a bod gofynion ymgynghori perthnasol wedi'u bodloni (adran newydd 50(1A)(d)).

46. Pan fo'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig wedi arolygu planiau sy'n ddigonol at ddibenion dyroddi tystysgrif planiau o dan adran newydd 50(1A)(a)(ii), mae adran newydd 50(7A)(c) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanylion y planiau pellach y mae'n rhaid i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig eu pennu yn y dystysgrif planiau. Pan fo'r amodau wedi'u bodloni, a'r person sy'n gwneud y gwaith yn gofyn am hynny, mae adrannau newydd 50(1B) ac (1C) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig ddyroddi tystysgrif planiau. Mae adran newydd 50(1D) yn ei gwneud yn ofynnol i dystysgrifau planiau gael eu darparu ar y ffurf ragnodedig.

47. Mae adran newydd 50(7A) yn galluogi Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau adeiladu, i ragnodi amgylchiadau pan fo'n rhaid dyroddi tystysgrif planiau a'r canlyniadau os na ddyroddir tystysgrif planiau o dan yr amgylchiadau rhagnodedig hynny, er enghraifft bod yr hysbysiad cychwynnol a ddyroddwyd ar gyfer y gwaith yn peidio â chael effaith. Mae'r cymal hefyd yn gwneud diwygiadau i baragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf 1984 i wneud darpariaeth gyfatebol mewn perthynas â hysbysiad tystysgrif planiau corff cyhoeddus.

48. Mae'r pwerau rheoleiddio o dan y darpariaethau hyn i'w gwneud mewn rheoliadau adeiladu ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Cymal 49 (Canslo hysbysiad cychwynnol)

49. Mae'r cymal hwn yn diwygio adrannau 47, 53 a 55 o Ddeddf 1984 ac yn mewnosod adrannau 53B i 53E newydd. Mae'r diwygiadau i adran 53 o Ddeddf 1984 yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir rhoi hysbysiad cychwynnol newydd. Mewn achosion o ganslo y cyfeirir atynt yn adran 53(7)(a) rhaid i'r hysbysiad cychwynnol newydd ddilyn y broses yn adran 53B. Mae'r broses yn adran 53B yn ei gwneud yn ofynnol i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig, unwaith y bydd yr hysbysiad cychwynnol wedi'i dderbyn, gyflwyno tystysgrif drosglwyddo sy'n gorfod cadarnhau nad yw gwaith heb ei orffen hyd at ddyddiad y dystysgrif yn mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau adeiladu. I'r gwrthwyneb, os nad yw'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig yn gallu penderfynu a yw'r gwaith anorffenedig yn bodloni rheoliadau adeiladu, rhaid iddo nodi pam mewn hysbysiad i'r person sy'n gwneud y

gwaith, neu'r person sy'n bwriadu gwneud y gwaith, a darparu copi o'r hysbysiad hwnnw i'r awdurdod lleol.

50. Rhaid i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig gyflwyno adroddiad trosglwyddo gydag unrhyw gynlluniau, dogfennau neu wybodaeth arall sy'n gysylltiedig â chadarnhau'r dystysgrif drosglwyddo.

51. Rhaid cyflwyno hwn i'r awdurdod lleol o fewn y cyfnod perthnasol a nodir yn yr adran hon (21 o ddiwrnodau neu unrhyw gyfnod arall a ragnodir mewn rheoliadau) neu unrhyw estyniad y cytunwyd arno i'r cyfnod hwnnw fel y cytunwyd arno gyda'r awdurdod lleol. O dan adran 53C rhaid i'r awdurdod lleol, drwy hysbysiad, dderbyn neu wrthod y dystysgrif a'r adroddiad cyn diwedd y cyfnod perthnasol. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn caniatáu i'r awdurdod lleol, drwy hysbysiad, ofyn am ragor o wybodaeth a'i gwneud yn ofynnol i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig roi i'r awdurdod lleol unrhyw wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad o fewn y cyfnod perthnasol. Pan fo'r awdurdod lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth, rhaid rhoi copi o'r hysbysiad hefyd i'r person sy'n gwneud y gwaith.

52. Rhaid i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig roi'r wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad i'r awdurdod lleol cyn diwedd y cyfnod o saith niwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad, neu unrhyw gyfnod arall a ragnodir mewn rheoliadau. Gall y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig ofyn i'r cyfnod hwn gael ei estyn gyda chytundeb yr awdurdod lleol.

53. Mae adran 53D yn nodi effaith canslo hysbysiad cychwynnol pan fo hysbysiad cychwynnol newydd wedi'i gyflwyno. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ganslo'r hysbysiad cychwynnol pan nad yw'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig yn rhoi tystysgrif drosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo i'r awdurdod lleol yn unol ag adran 53B(2) neu pan fo'r awdurdod lleol yn gwrthod y dystysgrif drosglwyddo a'r adroddiad trosglwyddo yn unol ag adran 53C. Mae adran 53D hefyd yn rhoi pwerau i'r person sy'n gwneud y gwaith i ganslo'r hysbysiad cychwynnol cyn i'r awdurdod lleol dderbyn neu wrthod y dystysgrif drosglwyddo a'r adroddiad yn unol ag adran 53B, h.y. tynnu'n ôl o'r broses drosglwyddo yn wirfoddol. Pan wrthodir tystysgrif drosglwyddo, neu pan fydd y datblygwr yn tynnu'n ôl o'r broses drosglwyddo yna daw'r broses drosglwyddo i ben a daw unrhyw waith yn ddarostyngedig i brosesau gorfodi a goruchwyllo awdurdodau lleol.

54. Mae adran 53E yn cyfyngu ar swyddogaethau cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig pan fo hysbysiad cychwynnol wedi'i dderbyn yn dilyn newid cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig a chanslo'r hysbysiad cychwynnol o ganlyniad i gamau disgyblu. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo mae'r 'broses drosglwyddo' yn dileu'r gallu i'r cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig ddyroddi cynlluniau, tystysgrif derfynol neu hysbysiad diwygio.

55. Mae'r diwygiadau a wnaed i adran 47 yn croesgyfeirio at y darpariaethau newydd a diwygiadau i adran 55 gan sicrhau bod hawl i apelio yn erbyn awdurdod lleol yn gwrthod tystysgrif neu adroddiad trosglwyddo.

56. Yn ogystal, mae'r cymal hwn yn diwygio adran 53 o Ddeddf 1984 i ganiatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r broses drosglwyddo newydd i helpu i weithredu'r gyfundrefn yn ddidrafferth.

Cymal 51 (Casglu gwybodaeth)

57. Mae cymal 51 yn diwygio adran 53 o Ddeddf 1984 er mwyn galluogi awdurdod lleol i geisio gwybodaeth gan y person a ddangosir ar yr hysbysiad cychwynnol fel y cymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig pan fydd wedi rhoi'r gorau i oruchwylio prosiect. Gallai hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i berson nad yw bellach yn gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig ddarparu ei holl gofnodion o oruchwylio gwaith adeiladu. Mae'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r awdurdod lleol gael ei chopio hefyd i'r person sy'n gwneud y gwaith a hefyd yn rhoi pŵer i'r person sy'n cyflawni'r gwaith, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth arall y gallai fod ei hangen ar gymeradwywr rheoli adeiladu cofrestredig newydd.

Cymal 52 (Gwybodaeth)

58. Mae cymalau 52(1) a (2) yn diwygio Deddf 1984 i fewnosod adrannau newydd 56A – C sydd ond yn gymwys mewn perthynas â Lloegr. Mae cymal 52(3) yn datgymhwyso adran 56 o Ddeddf 1984 i Loegr a hefyd yn gwneud rhai mân ddiwygiadau i'r adran honno sy'n ganlyniadol ar ddarpariaethau'r Bil ac sy'n ymwneud â Chymru yn unig. I'r graddau y mae'r diwygiadau a wneir gan y cymal hwn yn berthnasol i Gymru, byddent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Cymal 54 (Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) ac Atodlen 5

59. Mae'r darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys newidiadau i Ddeddf 1984. Nodir mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r newidiadau hynny yn Atodlen 5. I'r graddau y mae'r darpariaethau yn Atodlen 5 i'r Bil yn ganlyniadol ar ddarpariaethau yn Rhan 3 sy'n gymwys i Gymru, maent yn ddarpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd.

Cymal 55 (Apelau) ac Atodlen 6

60. Mae cymal 55 yn ymwneud ag Atodlen 6, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau i'r broses apelio o dan Ddeddf 1984. I'r graddau y mae'r darpariaethau yn Atodlen 6 yn gymwys i Gymru, maent yn ddarpariaethau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly

mae angen cydsyniad y Senedd. Mae Atodlen 6 yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf 1984 sy'n ymwneud ag apelau a phenderfyniadau eraill. Caiff apelau yn erbyn penderfyniadau penodol gan awdurdodau lleol yng Nghymru eu cyfeirio at Weinidogion Cymru. Darllenir cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol bellach fel pe baent yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru, ac mae cyfeiriadau apêl at lys ynadon yn parhau.

Cymal 56 (Ffioedd a thaliadau)

61. Mae'r cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru, fel yr "awdurdod cenedlaethol priodol" i wneud darpariaeth sy'n caniatáu i ffioedd gael eu codi neu eu hadennill ac i ragnodi swm y ffioedd a'r taliadau a godir gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol Cymru ar gyfer swyddogaethau Deddf 1984. Mae'r rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y weithdrefn negyddol.

Cymal 125 (Dyletswyddau sy'n ymwneud â gwaith i anheddau etc)

62. Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf Mangreoedd Diffygiol 1972 drwy fewnosod adran 2A newydd. Mae'r adran 2A newydd yn darparu, ar gyfer adeiladau sy'n cynnwys un neu fwy o anheddau, pan wneir gwaith fel rhan o fusnes arferol, fod dyletswydd i'r gwaith hwnnw fod fel petai wedi'i wneud gan weithiwr cymwys neu mewn modd proffesiynol gyda deunyddiau priodol, fel bod yr annedd, o ran y gwaith, yn addas i bobl fyw ynddi. Dim ond i waith perthnasol a wneir ar ôl i'r ddarpariaeth ddod i rym y mae'r ddyletswydd newydd a grëir yn berthnasol.

Cymal 126 (Cyfnodau cyfyngiadau)

63. Mae'r cymal hwn yn gwneud nifer o newidiadau i estyn cyfnod y cyfyngiad (h.y. y cyfnod y mae'n rhaid cymryd camau cyfreithiol ynddo) mewn perthynas â gweithredu o dan adran 1 o Ddeddf Mangreoedd Diffygiol 1972 ac (y rhai sydd eto i'w cychwyn) adran 38 o Ddeddf 1984 o'r chwe blynedd bresennol i bymtheg, yn bennaf drwy fewnosod adran 4B newydd yn Neddf Cyfyngiadau 1980 (isadran (1)). Mae'r cymal hefyd yn darparu yn is-adran (3) y bydd cyfnod y cyfyngiad estynedig, mewn perthynas â chamau gweithredu o dan adran 1 o'r Ddeddf Mangreoedd Diffygiol yn unig, yn gymwys yn rhagolygol (h.y. mewn perthynas â gwaith yn y dyfodol) ac yn ôl-weithredol (h.y. mewn perthynas â gwaith sydd eisoes wedi'i wneud o fewn 15 mlynedd i ddechrau'r ddarpariaeth). Lle byddai cyfnod cyfyngiad sydd wedi'i adfywio yn para llai na 90 diwrnod (a elwir yn "y cyfnod cychwynnol"), mae is-adran (4) yn darparu y bydd yn para am 90 diwrnod, er mwyn rhoi'r amser angenrheidiol i ddarpar hawlwy'r geisio cyngor a chyflwyno hawliad.

64. Pan fydd cyfnod cyfyngiad yn cael ei estyn yn ôl-weithredol, h.y. pan fo cyfnod cyfyngiad blaenorol o chwe blynedd wedi dod i ben ac yn cael ei adfywio gan y ddarpariaeth hon, mae'r cymal yn nodi dau fesur diogelu i sicrhau tegwch yn y trafodion. Yn gyntaf, mae is-adran (5) yn darparu, pan fo hawliad yn cael ei gyflwyno a bod parhau â'r hawliad yn torri hawliau dynol diffynnydd, fod yn rhaid i'r llys wrthod yr hawliad. Yn ail, mae is-adran (6) yn darparu, pan fo hawliad wedi'i wrthod o'r blaen, na fydd y cyfnod cyfyngiadau estynedig, ynddo'i hun, yn ddigon i ailagor yr hawliad.

Cymal 134 (Diwygio Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005)

65. Mae'r cymal hwn yn nodi diwygiadau i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('y Gorchymyn Diogelwch Tân' neu 'FSO') o ran dyletswyddau ar y person cyfrifol. Byddai'r diwygiadau'n ei gwneud yn ofynnol, pan fo'r person cyfrifol yn penodi person i'w gynorthwyo i wneud neu adolygu asesiadau risgiau tân, fod yn rhaid iddo sicrhau bod y person yn berson cymwys a bod yn rhaid cofnodi'r asesiad ar gyfer yr holl adeiladau a gwmpesir gan yr FSO. Rhaid bod modd i breswylwyr a phersonau cyfrifol allu adnabod personau cyfrifol eraill. Mae hyn yn cywiro diffygion amlwg yn yr FSO: ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol ynghylch cymhwysedd ac ar gyfer rhai safleoedd nid oes gofyniad i gofnodi'r asesiad mewn unrhyw ffordd.

66. Bydd y cymal hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau cyfrifol ar gyfer adeiladau sy'n cynnwys dwy set neu fwy o anheddau domestig ddarparu gwybodaeth berthnasol am ddiogelwch tân i breswylwyr ac mae'n rhagnodi'r math o wybodaeth sy'n berthnasol. Mae hefyd yn darparu y gellir pennu mathau ychwanegol o wybodaeth drwy reoliadau. Mae darpariaethau eraill yn y cymal yn cynnwys cryfhau'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â chanllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Erthygl 50 o'r Gorchymyn Diogelwch Tân, a chynyddu lefel y dirwyon o Lefel 3 (£1,000) i Lefel 5 (diderfyn) ar gyfer troseddau penodol gan gynnwys troseddau mewn perthynas â dynwared arolygydd, a methu â chydymffurfio â gofynion penodol a osodir gan arolygydd.

Cymal 143 (Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol)

67. Mae cymal 143 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o Ran 3 o'r Bil hwn, a chymal 134, neu reoliadau a wneir oddi tano. Caiff rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ganlyniadol ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiad. Mae unrhyw reoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Mae unrhyw reoliadau eraill o dan y cymal hwn yn dilyn y weithdrefn negyddol.

Cymal 144 Rheoliadau

68. Mae cymal 144 yn sicrhau y gall rheoliadau a wneir o dan y hwn gynnwys unrhyw ddiwygiadau canlyniadol yn ogystal â darpariaethau trosiannol ac ymdrin ag unrhyw faterion cysylltiedig eraill. Mae hefyd yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn i'w gwneud drwy offeryn statudol ac yn nodi pa setiau o reoliadau sy'n gofyn am y weithdrefn gadarnhaol. Dim ond ar gyfer gweithdrefnau craffu Senedd San Steffan y mae'r cymal hwn yn darparu oherwydd, ac eithrio rheoliadau o dan gymal 143 (nad yw cymal 144 yn gymwys iddynt), nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw bwerau gwneud rheoliadau annibynnol ar gyfer Gweinidogion Cymru. Mae'r holl bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer Gweinidogion Cymru yn bwerau i'w cynnwys yn Neddf 1984. Mae'r adran 120A newydd (a fewnosodir yn Neddf 1984 gan baragraff 77 o Atodlen 5) yn gwneud darpariaethau cyfatebol ar gyfer craffu gan y Senedd. Fodd bynnag, i'r graddau y gallai'r Senedd wneud darpariaeth debyg mewn Bil yn y Senedd, byddai cymal 144 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Cymal 146 (Cychwyn a darpariaeth drosiannol)

69. Er mai cymal anweithredol yw hwn, i'r graddau y mae darpariaethau'r Bil yn gymwys i Gymru, byddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i wneud darpariaeth debyg sy'n rhoi pwerau o'r fath i Weinidogion Cymru.

Y Memorandwm atodol

70. Mae paragraffau 12-33 o'r Memorandwm Atodol yn nodi'r cymalau yr effeithir arnynt gan welliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn ychwanegol at y cymalau ym mharagraff 8 o'r adroddiad hwn, gofynnir am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 142.

71. Ers gosod y Memorandwm, gofynnodd Llywodraeth Cymru am welliannau technegol i'r Bil er mwyn sicrhau bod yr holl ddarpariaethau'n gweithio fel y'u bwriadwyd. Gofynnwyd am welliannau i'r darpariaethau cychwyn er mwyn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i gychwyn darpariaethau sy'n gymwys yng Nghymru. Mae'r gwelliannau technegol eraill i'r Bil yn sicrhau bod y darpariaethau'n gweithio mewn perthynas â chydweithredu a rhannu gwybodaeth a gallu Gweinidogion Cymru i ddiffinio adeiladau "risg uwch". Mae'r Memorandwm atodol yn rhestru'r cymalau a ganlyn fel rhai y mae arnynt angen cydsyniad y Senedd:

Cymal 30 (Gwelliant 17)

72. Mae gwelliant 17 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio adeilad ("building") at ddibenion adran 120I newydd o Ddeddf 1984 (a fewnosodir gan y cymal hwn). Bydd rheoliadau

a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae gwelliannau 37 a 38 yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn.

Cymal 41 (Gwelliant 18)

73. Mae gwelliant 18 yn darparu bod adran 91B (sy'n cynnwys darpariaethau newydd o ran cydweithredu a rhannu gwybodaeth) o Ddeddf 1984 (a fewnosodir gan Atodlen 5 i'r Bil) yn gymwys mewn perthynas â pherson y dirprwyir swyddogaethau iddo o dan adran 58Y fel y mae'n gymwys mewn perthynas â Gweinidogion Cymru. Mae gwelliannau 23 – 35 yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn.

Cymal 142 (Gwelliant 19)

74. Mae gwelliant 19 yn darparu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ganlyniadol y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud o dan gymal 143. Nod y gwelliant hwn yw diogelu'r setliad datganoli drwy sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 142 a swyddogaeth Gweinidogion Cymru yng nghymal 143.

Cymal 146 (Gwelliant 20)

75. Mae gwelliant 20 yn rhoi pwerau cychwyn penodol i Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer i Weinidogion Cymru i gychwyn darpariaethau wedi'i gyfyngu i Ran 3 a chymal 134 sef y rhannau o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddarpariaeth bwrsol ar gyfer Cymru ynddynt. Mae'r cymal wedi'i ddrafftio er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd rhwng swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a swyddogaeth Gweinidogion Cymru. Mae gwelliannau 21, 35 a 38 yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn.

Cymal 146 (Gwelliant 21)

76. Mae gwelliant 21 yn darparu y caiff rheoliadau cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

Atodlen 5 (Gwelliant 22)

77. Mae gwelliant 22 yn darparu nad yw darpariaethau penodol o Ddeddf 1984 yn effeithio ar hawl y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru i wneud cais am waharddeb ar y sail bod unrhyw waith yn mynd yn groes i ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf honno neu oddi tani.

Atodlen 5 (Gwelliant 23)

78. Mae'r ddarpariaeth yng ngwelliant 23 o ganlyniad i'r newidiadau a wneir i'r adran 91A newydd o Ddeddf 1984 gan welliannau eraill ac mae'n diwygio pennawd yr adran honno i adlewyrchu'r cynnwys yn well.

Atodlen 5 (Gwelliant 24) a gwelliant 31

79. Maent yn darparu bod y ddyletswydd o dan adran newydd 91B(1) (o Ddeddf 1984) i gydweithredu yn gymwys i awdurdodau tân ac achub Cymru (fel y'u diffinnir gan welliant 33) ac arolygwyr tân (fel y'u diffinnir gan welliant 30), yn hytrach nag awdurdodau tân ac achub fel y'u diffinnir gan Ddeddf 1984.

Atodlen 5 (Gwelliant 25)

80. Mae gwelliant 25 yn dileu'r cyfyngiad ar y ddyletswydd i gydweithredu, sydd ar hyn o bryd yn darparu bod y ddyletswydd ond yn gymwys i swyddogaethau i'r graddau y mae'n ymwneud ag adeiladau risg uwch.

Atodlen 5 (Gwelliant 26)

81. Mae gwelliant 26 o ganlyniad i welliant 24 ac mae'n diwygio'r cyfeiriad at yr awdurdod lleol ("the local authority") i awdurdod lleol ("a local authority") i adlewyrchu'r diffiniad o berson perthnasol ("relevant person") a ddarperir yn adran newydd 91B(3).

Atodlen 5 (Gwelliant 27)

82. Mae gwelliant 27 o ganlyniad i welliant 24 ac yn diwygio'r cyfeiriad at yr awdurdod tân ac achub ("the fire and rescue authority") i awdurdod tân ac achub yng Nghymru ("a Welsh fire and rescue authority") i adlewyrchu'r diffiniad o berson perthnasol ("relevant person") a ddarperir yn adran newydd 91B(3).

Atodlen 5 (Gwelliant 28)

83. Mae gwelliant 28 o ganlyniad i welliant 24 ac yn darparu mai swyddogaethau arolygydd tân sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau cydweithredu adran newydd 91B yw'r rhai sydd ganddynt o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Atodlen 5 (Gwelliant 29)

84. Mae gwelliant 29 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a phersonau perthnasol i gydweithredu â'i gilydd wrth arfer swyddogaethau penodol, a phŵer i ddatgelu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny

Atodlen 5 (Gwelliant 30)

85. Mae gwelliant 30 yn diffinio arolygydd tân ("fire inspector") at ddibenion yr adran 91B newydd o Ddeddf 1984.

Atodlen 5 (Gwelliant 31)

86. Mae gwelliant 31 yn newid y diffiniad o berson perthnasol (“relevant person”) at ddibenion yr adran 91B newydd o Ddeddf 1984 fel bod arolygydd tân, yn ogystal ag awdurdod lleol yng Nghymru ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru, wedi eu cynnwys yn y diffiniad.

Atodlen 5 (Gwelliant 32)

87. Mae gwelliant 32 yn newid y diffiniad o swyddogaeth berthnasol (“relevant function”) at ddibenion yr adran newydd o Ddeddf 1984 ac mae o ganlyniad i welliant 31.

Atodlen 5 (Gwelliant 33)

88. Mae gwelliant 33 yn diffinio awdurdod tân ac achub yng Nghymru (“a Welsh fire and rescue authority”) at ddibenion yr adran 91B newydd.

Atodlen 5 (Gwelliant 34)

89. Mae gwelliant 34 yn darparu nad yw datgelu gwybodaeth o dan yr adran 91B newydd yn torri unrhyw rwymedigaeth o safbwynt cyfrinachedd na chyfyngiad arall, ac nad yw'r adran yn awdurdodi datgelu gwybodaeth a fyddai'n mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data.

Atodlen 5 (Gwelliant 35)

90. Mae gwelliant 35 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â throsglwyddo'r pŵer i wneud gorchmynion o dan adran 134 o Ddeddf 1984 (cychwyn), mewn perthynas â Chymru, i Weinidogion Cymru.

Atodlen 5 (Gwelliant 36)

91. Mae gwelliant 36 o ganlyniad i welliant 17 ac yn gwneud rheoliadau o dan adran newydd 120I(4) o Ddeddf 1984 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Atodlen 5 (Gwelliant 37)

92. Mae gwelliant 37 o ganlyniad i welliant 17 ac mae'n cael yr effaith o sicrhau nad yw'r diffiniad presennol o adeilad (“building”) yn adran 121 o Ddeddf 1984 yn gymwys at ddibenion adran newydd 120I.

Atodlen 5 (Gwelliant 38)

93. Mae gwelliant 38 yn darparu, mewn perthynas â Chymru ac yn ddarostyngedig i eithriad ar gyfer y darpariaethau a restrir yn is-adran (1B), fod y pŵer i wneud gorchmynion cychwyn o dan Ddeddf 1984 yn bŵer i Weinidogion Cymru.

4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yng Nghymru

94. Mae paragraffau 94-100 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y DU. Mae paragraffau 94 a 95 yn cyfeirio at y diwygiadau sydd eu hangen ac a nodwyd gan adolygiad Hackitt, y gwaith a wnaed gan Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Adeiladau a'r Papur Gwyn dilynol, "Adeiladau mwy Diogel yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, a oedd yn nodi'n fanylach y nodau polisi. Roedd y nodau polisi'n cynnwys gwelliannau sydd eu hangen yn y cyfnod dylunio ac adeiladu, rheoleiddio'r gyfundrefn diogelwch adeiladau, cofnodion gwybodaeth am oes adeilad a chyfnod meddiannaeth adeilad.

95. Ym mharagraff 96, dywed Llywodraeth Cymru:

"er y bydd angen mynd â deddfwriaeth sylfaenol drwy'r Senedd ar rai o'r nodau hyn, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r cyfnod meddiannaeth ym mywyd adeilad, nododd y papur gwyn fod y Bil yn gyfle i gymryd camau cynharach yn ein hymdrechion i ymateb i'r angen i foderneiddio'r system rheoli adeiladau a'r ffordd y mae'r diwydiant adeiladu yn cyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r Bil hwn yn darparu'r cam cynnar hwn ar gyfer y cyfnod dylunio ac adeiladu."

96. Ym mharagraffau 97 i 99, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfeirio at fanteision cadw rhywfaint o gyffredinedd rhwng y systemau yng Nghymru a Lloegr am fod gan y ddwy wlad bwerau yn Neddf Adeiladu 1984. Ym mharagraff 98, nodir fel a ganlyn:

"Er y bwriedir i'r cynigion ar gyfer y cam dylunio ac adeiladu a gynhwysir yn y Papur Gwyn ymateb i raddfa wahanol iawn o'r problemau a ganfuwyd gan Adolygiad Hackitt o gymharu â Lloegr, mae'r newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth sylfaenol graidd, Deddf Adeiladu 1984 (Deddf 1984), y mae'r Bil bellach yn eu cynnig, yn darparu'r arfau angenrheidiol y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu eu defnyddio i foderneiddio'r system yng Nghymru. Mae cadw strwythur tebyg yn Neddf 1984 o fudd i ddefnyddwyr [ar] ddwy ochr y ffin."

97. Mae paragraff 100 yn nodi sut mae darpariaethau yn y Bil wedi'u teilwra i Gymru:

"Nid yw'r cynigion yn ymwneud â chymhwyso cynigion y DU ar Gymru. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ddiwygiadau pwrpasol i raddau helaeth i Ddeddf 1984 sy'n addas i'r materion diogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn gwbl gyson â'n Papur Gwyn "Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021."

5. Ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor

98. Yn dilyn ein hystyriaeth gychwynnol o'r Memorandwm a'r Memorandwm Atodol, ysgrifennom at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac at y Gweinidog Newid Hinsawdd yn mynegi ein pryderon y gallai Llywodraeth Cymru, gan fod y darpariaethau yn y Bil Diogelwch Adeiladau yn ymwneud â meysydd datganoledig, gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun, a fyddai'n destun craffu llawn gan y Senedd.

99. Yn ein llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gwnaethom nodi'r cynnydd diweddar o ran faint y defnyddir proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a bod rhai Aelodau o'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn siom nad yw diwygiadau i ddiogelwch adeiladau yn cael eu gwneud drwy Fil Senedd Cymru, o ystyried ei fod yn faes polisi a flaenoriaethir gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethom hefyd nodi pryder rhai Aelodau nad yw'r amserlen ar gyfer proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ddigonol i allu cynnal gwaith craffu ystyrllon, a phwysleisiwyd bod mwy o graffu yn arwain at well cyfraith ac y byddai Bil gan Senedd Cymru yn caniatáu mwy o graffu.

100. Ailadroddwyd y pryderon hyn yn ein llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, a gofynnwyd pam nad yw'r diwygiadau ym Mil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU yn cael eu gwneud ym Mil Diogelwch Adeiladau arfaethedig Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellwyd yn ei Phapur Gwyn, "Adeiladau mwy Diogel yng Nghymru". Gwnaethom hefyd nodi'r pryderon ynghylch yr amserlen gyfyngedig ar gyfer craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a phwysleisiwyd unwaith eto y byddai cynnwys y darpariaethau ym Mil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru yn caniatáu i broses graffu deddfwriaethol llawn y Senedd ddigwydd.

101. Ymatebodd y Gweinidog i'n llythyr ar 22 Hydref, gan nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros ddefnyddio deddfwriaeth y DU i gyflawni ei hamcanion yn y maes hwn:

"Mae Prif Weinidog Cymru wedi'i gwneud hi'n glir, er mai amddiffyn y setliad datganoli yw'r flaenoriaeth glinigol o hyd a deddfu yn y Senedd mewn meysydd sydd wedi'u datganoli"

ddylai fod ein blaenoriaeth gyffredinol, dylem fod yn agored i fynd ati mewn ffordd bragmataidd i ddefnyddio deddfwriaeth y DU er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru lle bo hynny'n briodol.

Rwy'n credu bod trychineb Grenfell a'r angen i ymateb i'r adolygiad annibynnol dilynol o reoliadau adeiladu wedi arwain at amgylchiadau o'r fath. Er bod y feirniadaeth ar y system yn Lloegr gan Y Fonesig Judith Hackitt yn ei hadroddiad yn fwy o broblem yno nag yng Nghymru, mae'r un mor berthnasol gan mai'r un ddeddfwriaeth graidd yw hi.

Mae Deddf Adeiladu 1984 a Rheoliadau Adeiladu 2010 wedi gosod y fframwaith ar gyfer adeiladau heb fawr o newidiadau ers iddynt ddod i rym. Er bod swyddogaethau wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2012, rydym wedi canolbwyntio hyd yn hyn ar newidiadau technegol megis systemau chwistrellu preswyl, gwahardd deunyddiau llosgadwy a pherfformiad ynni. Felly, mae'r Bil Diogelwch Adeiladau (BSB) yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i system y canfuwyd gwendidau ynddi mewn ffordd sy'n rhoi rheolaeth gadarn i Weinidogion Cymru a'r Senedd yn hytrach na rhywbeth sydd wedi'i osod arnom, fel rydych chi'n ei nodi. Yn ogystal, bydd y Bil, sy'n debygol o gael cydsyniad brenhinol y flwyddyn nesaf, yn golygu y bydd modd cyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i'r system rheoli adeiladu yn gynt nag a fyddai'n bosibl drwy Fil Diogelwch Adeiladau gan y Senedd."

102. Aiff y Gweinidog ymlaen i ddweud bod y system rheoli adeiladau yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr, ac mae Bil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU yn sefydlu trefniadau goruchwylio mwy cadarn ar gyfer y systemau, felly mae sicrhau cydymffurfedd â Lloegr yn hanfodol i alluogi sefydliadau i weithio ar draws y ddwy weinyddiaeth. Mae'r llythyr hefyd yn nodi rhesymau eraill dros ddilyn un dull cydgysylltiedig, y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn fuddiol:

"Drafftwyd y Ddeddf Adeiladu yn 1984, a bydd y BSB yn gwella'r fersiwn ddrafft, gan ddiweddarau ei gweithrediad, ei hiaith a'i hygyrchedd. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu pawb sy'n defnyddio'r Ddeddf, ac er y gellid eu cyflwyno drwy ddeddfwriaeth Gymreig maen nhw'n newidiadau sy'n angenrheidiol yn ein barn ni, beth bynnag yw'r llwybr deddfwriaethol a ddewisir.

Mae'r diwydiant adeiladu'n paratoi ar gyfer y newidiadau y bydd y bil yn eu cynnig, o ran diwylliant, gallu a chymhwysedd. Bydd defnyddio'r bil fel cyfrwng newid yng Nghymru'n golygu y byddwn yn cael budd o'r egni sy'n cael ei gyfeirio at welliannau sy'n peri'r risg o gael ei wanhau pe na byddem yn bachu ar y cyfle i weithredu'n gynt."

103. Pwysleisiodd y Gweinidog fod darpariaethau Cymru yn y Bil yn bodloni polisiâu Llywodraeth Cymru:

"...mae pob darpariaeth sy'n berthnasol i Gymru yn y bil yn adlewyrchiad o'n barn ni o'r newidiadau angenrheidiol a beirniadaeth yr adroddiad annibynnol, ond sydd mewn ffordd yn briodol i'n hanghenion. Enghraifft dda o hyn yw ein penderfyniad i beidio â chreu corff rheoleiddio newydd fel y'i cynigiwyd i Loegr ond yn hytrach ymestyn swyddogaethau presennol awdurdodau lleol."

104. Roedd y llythyr hefyd yn cyfeirio at ddarpariaethau yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i is-ddeddfwriaeth gael effaith, gan nodi:

"Bydd y rheoliadau y byddwn yn eu cyflwyno yn dilyn hyn yn destun ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu yn unol â'n hegwyddorion a'n gweithdrefnau."

105. Gwnaethom ystyried y llythyr ar 3 Tachwedd a chytuno i gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog ar 17 Tachwedd er mwyn trafod y pryderon a godwyd.

106. Ar 17 Tachwedd, esboniodd y Gweinidog resymau Llywodraeth Cymru dros ddefnyddio deddfwriaeth y DU i gyflawni ei hamcanion polisi yn y maes hwn, gan dynnu sylw bod hwylustod yn flaenoriaeth:

"...in the light of the Grenfell tragedy and the need to respond to the subsequent independent review of building regulations—the Hackitt review that Members will be familiar with—we need to respond as quickly as possible, and this Bill is the most effective way to do that."

...there might be negatives if we waited for a Wales Bill, which are all around delay. We will have a building safety Bill coming through in Wales, there are some specific things we want to do, but in this particular Bill, we're very satisfied that the provisions in it are provisions that we would enact in Wales if we were

doing it now, and that it is not in Wales's best interests to fall behind these provisions in England. These are protections—very necessary protections—for residents in high-risk residential blocks, and we feel the need to put those into place as soon as is possible. This Bill represents the best opportunity for that.

107. Wrth drafod y Memorandwm, dywedodd y Gweinidog wrthym:

...it's a response to very specific recommendations of the independent Hackitt report, so the one following on from Grenfell tragedy. So, there are important elements we want to introduce in Wales. I've already mentioned some of them: dutyholder responsibilities; gateway scrutiny stages in design and construction—so the planning application before construction, before occupation— and competence requirements for industry and regulators—so, specific competency requirements before you can be various people who inspect the thing. But it also provides Welsh Ministers with all the necessary powers to customise the model for Wales.”

108. Wrth ymateb i bryderon rhai Aelodau nad oedd y darpariaethau hyn yn cael eu gwneud trwy Fil Senedd Cymru, ailadroddodd y Gweinidog y sensitifrwydd amser wrth gyflwyno'r darpariaethau yng Nghymru, er mwyn sicrhau diogelwch i breswylwyr mewn blociau risg uchel:

“I absolutely do acknowledge that it's clearly better if we do do a Senedd Bill, but the delay that that introduces and the call on our resources in order to do it, I think, outweighs the need for that full scrutiny.

...we have a really serious problem in building safety in Wales. We've done a lot of expert work about what that should look like. This Bill does represent an ideal opportunity to do that as fast as possible for the people of Wales.

...this is about, for example, who does the building control, what are the legal aspects of which plans should be deposited where, and so on. This is about the control mechanisms. One of the problems with Grenfell and the subsequent problem with all of the building safety issues is that it is not at all clear, for the poor people who live in those buildings now, whose responsibility it is to maintain them or remediate defects and so on...this is about having a control and management system

in place for those buildings that designates the legal responsibility.”

109. Cododd rhai Aelodau bryderon pellach ynghylch yr angen i ddefnyddio darpariaethau mewn Bil gan Lywodraeth y DU, a chael system unol â Lloegr. Atebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

“...in our judgment, this was the expedient and timely way to do it, and didn't put any detriment onto the people of Wales...We certainly do not have to do it...we think it's an expedient way to do it.

We've negotiated a flexibility into the Bill so that a later Bill could change these rules if we wanted to here in Wales. So, it doesn't take anything away from us in terms of flexibility.”

110. Trafododd y Gweinidog y cwestiynau ynghylch pryd y byddai Bil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno, gan ddweud wrthym fod yr amserlen ar gyfer Bil Llywodraeth y DU yn caniatáu cyflwyno'r darpariaethau yn gynharach nag y byddai Bil Senedd Cymru yn y dyfodol yn ei ganiatáu.

111. Nodwn safbwynt Llywodraeth Cymru bod defnyddio proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Diogelwch Adeiladau Llywodraeth y DU yn ffordd hwylus o gyflwyno'r deddfwriaeth angenrheidiol i sicrhau gweithredu prydlon i breswylwyr sy'n byw mewn blociau risg uchel yng Nghymru.

112. Nododd rhai Aelodau eu bod yn anhapus iawn ynglŷn â chyflwyno'r darpariaethau trwy Fil Llywodraeth y DU, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, ac roeddent yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi blaenoriaethu cyflwyno ei Bil Diogelwch Adeiladau ei hun. Roedd rhai Aelodau'n poeni bod y Gweinidog wedi cyfeirio at brinder adnoddau a chapasiti fel rhesymau dros fethu â chyflwyno Bil Llywodraeth Cymru yn gynt, o ystyried bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers trychineb Grenfell yn 2017.

113. Mae rhai Aelodau'n parhau i bryderu am y trefniadau craffu cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, o'i gymharu â deddfwriaeth sylfaenol, a bod hyn mewn perygl o danseilio datganoli. Yn benodol, maent yn pryderu am y diffyg ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru a diogelwch y cymalau sy'n gymwys i Gymru. Maent hefyd yn pryderu y gallai defnyddio proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y deddfwriaeth hon osod cynsail ar gyfer Biliau yn y dyfodol; credwn yn gryf y dylai deddfwriaeth ar faterion datganoledig gael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru i'r Senedd allu craffu arni'n llawn.

114. Er gwaethaf y pryderon a amlinellir uchod, rydym yn ymwybodol o'r brys sydd ei angen i gyflwyno'r darpariaethau hyn, felly rydym yn argymhell y dylai'r Senedd roi ei chydysniad i Lywodraeth y DU ddeddfu ar y materion datganoledig hyn, er mwyn sicrhau gwelliannau i drigolion Cymru yn gyflym.

115. Mae un Aelod, sef Alun Davies AS, yn fodlon rhoi cydsyniad i'r Memorandwm hwn ar y sail bod angen i'r darpariaethau fod ar waith fel mater o flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn anghytuno â dull y Gweinidog o gyflwyno'r diwygiadau drwy Fil gan Lywodraeth y DU yn hytrach na Bil gan Senedd Cymru, ac nid yw wedi ei argyhoeddi gan y ddadl a wneir ei bod yn angenrheidiol defnyddio Bil Diogelwch Adeiladu y DU i sicrhau "hwylustod". Mae'r Aelod yn credu y dylai'r Gweinidog fod wedi blaenoriaethu adnoddau i ffafrio cyflwyno a phasio Bil gan Senedd Cymru cyn gynted â phosibl.

116. Ar gyfer diwygiadau sydd angen sylw ar fyrder megis y diwygiadau yn y Memorandwm hwn, mae'r Aelod yn cwestiynau pam nad yw'r Gweinidog wedi manteisio ar weithdrefnau Bil brys y Senedd i gyflwyno Bil Senedd Cymru, y byddai gan Lywodraeth Cymru reolaeth lawn dros yr amserlen i'w gyflwyno. Pe byddai'r weithdrefn hon wedi cael ei defnyddio, mae'n bosibl y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi sicrhau diwygiadau o fewn amserlen debyg i Fil Llywodraeth y DU, nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros ei hamserlen.

117. Mae un Aelod o'r Pwyllgor, sef Mabon ap Gwynfor AS, yn anghytuno â barn fwyafrifol ac mae'n credu na ddylid rhoi cydsyniad.